# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 6 Tachwedd 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(160)

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 3 a 5 i 11. Atebwyd cwestiynau 5 i 7 gan y

Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg. Tynnwyd cwestiwn 4 yn ôl.

### 2 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Dechreuodd yr eitem am 14.15

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 9 ac 11 i 15. Tynnwyd cwestiwn 10 yn ôl.

### 3 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Reoli Asedau yn y Sector Cyhoeddus

Dechreuodd yr eitem am 14.53

**NDM5345 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei ymchwiliad i Reoli Asedau yn y Sector Cyhoeddus, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Awst 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15.26

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5346 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod gofal a thriniaeth o ansawdd uchel yn GIG Cymru yn allweddol i ddileu marwolaethau y gellir eu hosgoi.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu adolygiad annibynnol o ysbytai Cymru a chanddynt gyfraddau marwolaethau uwch na'r cyfartaledd i benderfynu a yw methiannau o ran ansawdd gofal a thriniaeth yn ffactor.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 40 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cyfraddau marwolaeth ar gyfer pob safle ysbyty ar wefan 'Fy Ngwasanaeth Iechyd Lleol'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi Byrddau Iechyd Lleol i fynd i'r afael â'r gwaith sydd wedi pentyrru ym maes codio clinigol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerir i sefydlu dull o ymchwilio i ysbytai neu Fyrddau Iechyd Lleol sy'n mynd dros drothwy penodol RAMI yn gyson dros gyfnod o amser.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU i sicrhau bod data tebyg ar gael ar farwolaethau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5346 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod gofal a thriniaeth o ansawdd uchel yn GIG Cymru yn allweddol i ddileu marwolaethau y gellir eu hosgoi.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu adolygiad annibynnol o ysbytai Cymru a chanddynt gyfraddau marwolaethau uwch na'r cyfartaledd i benderfynu a yw methiannau o ran ansawdd gofal a thriniaeth yn ffactor.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cyfraddau marwolaeth ar gyfer pob safle ysbyty ar wefan 'Fy Ngwasanaeth Iechyd Lleol'.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu’r wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi Byrddau Iechyd Lleol i fynd i’r afael â’r gwaith sydd wedi pentyrru ym maes codio clinigol.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu’r wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerir i sefydlu dull o ymchwilio i ysbytai neu Fyrddau Iechyd Lleol sy’n mynd dros drothwy penodol RAMI yn gyson dros gyfnod o amser.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU i sicrhau bod data tebyg ar gael ar farwolaethau.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig wedi’i ddiwygio. Felly, gwrthodwyd y cynnig wedi’i ddiwygio.**

## 5 Dadl Plaid Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.25

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5344 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol.

2. Yn cydnabod rôl trafnidiaeth o ran cysylltu Cymru yn fewnol ac yn allanol.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ceisio cyllid canlyniadol Barnett parhaus neu unrhyw setliad ariannol digolledu arall mewn perthynas â phrosiect HS2 Llywodraeth y DU;

b) adolygu gweithrediad y Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol a llywodraethu trafnidiaeth yn gyffredinol;

c) ailddatgan ei hymrwymiad i drafnidiaeth gyhoeddus integredig; a

d) cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU, i sicrhau bod coridorau trafnidiaeth gogledd a de Cymru wedi'u cynnwys yn rhwydwaith craidd newydd TEN-T y Comisiwn Ewropeaidd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 0 | 17 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd yr eitem am 17.18

Cafodd y cyfarfod ei ohirio a’i ail-gynnull am 17.19 ar gyfer y Cyfnod Pleidleisio.

## 6 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.26

**NDM5347 Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Diogelwch Plant Ar-lein

Datblygu gwybodaeth a chadernid drwy addysg.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:46

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 12 Tachwedd 2013**